"Profwch bob peth; deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

YR

YMOFYNYDD.

RHYDDID, GWIRIONEDD, CARIAD.

CYFRES NEWYDD.] CHWEFROR, 1887. [RHIF 66.

CYNNWYSIAD.

	TUD.
A ydyw *Home Rule* i'r Iwerddon yn gyfiawn a dyogel?	25
Troediad Engyl	32
Cyfarfod Chwarterol Nadolig, 1886	33
Ymddyddan ar y Beibl a Chrefydd	34
Cân y Wladwraig	37
Marwolaeth Mari Fach	38
J. D. Jones, Glynllwyd, Cribin	41
Dyfodiad Iesu	41
This is all	44
Nodynau Gwasgarog	44
Manion a Hanesion	46
Marwgofion	47

Pris Tair Ceiniog.

ABERDAR:

ARGRAFFWYD GAN JENKIN HOWELL, COMMERCIAL PLACE.

YR

YMOFYNYDD.

CYFRES NEWYDD.] CHWEFROR, 1887. [RHIF 66.

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—PAUL.

A YDYW *HOME RULE* I'R IWERDDON YN GYFIAWN A DYOGEL?

GAN JOHN PAGE HOPPS.*

AT ETHOLWYR PRYDAIN FAWR.

PAN yr ydym yn nghanol twrw yr etholiad, yr ydych yn gwybod mor anhawdd ydyw ffurfio barn dawel ac annybynol ar y materion mewn dadl. Y peth yr amcenir ato naw gwaith allan o ddeg yw ennill; a phan y gofalo dynion yn benaf am ennill, maent yn dueddol i ddweyd ac i wneyd pethau na fydd ystyriaeth gydwybodol yn eu cymmeradwyo yn ol llaw. Onid ydych yn credu, ynte, mai peth da ydyw meddwl o ddifrif ar faterion gwleidyddol yn mlaen llaw, pan mae tawelwch a thangnefedd yn teyrnasu, pan nad oes perygl i farn dyn gael ei chynhyrfu, a phan mae amser i feddwl? Yn y gobaith y gallaf fi fod o ryw gynnorthwy yn hyn, yr wyf yn eich anerch yn awr.

Mae yn ffaith syml fod cynnygiad Mr. Gladstone, gyda golwg ar Ymreolaeth i'r Iwerddon *(Home Rule)*, wedi dyfod yn annysgwyliadwy i'r rhan fwyaf o bobl. Mae yn wir fod rhai o honom wedi cadw ein llygaid am flynyddau ar y pwnc mawr Gwyddelig, ac wedi gwylio Mr. Gladstone tra yr oedd ei feddwl yn addfedu mewn perthynas iddo. Ond nid oedd y mwyafrif mawr erioed wedi meddwl ar y pwnc; ac felly, yr oeddent yn hollol anmharod i gyrhaedd unrhyw gasgliadau rhesymol a goleuedig ar y mater.

---

*Mr. Hopps oedd gwrthwynebydd Arglwydd Randolph Churchill yn South Paddington ar adeg yr etholiad diweddaf, ac y mae yn un o'r gwleidyddwyr mwyaf goleuedig a gonest yn y wlad.—*Cyf.*

Dyma paham yr oedd llawer yn cael eu harwain i gredu fod Ymreolaeth yn golygu "tori i fyny yr Ymherodraeth," "dyddimu yr undeb," dileu yr Iwerddon oddiar y *map*, darnio y faner Brydeinig, a chant o bethau erchyll cyffelyb a ddygid allan fel bwcïod i ddychrynu'r bobl, a pheru iddynt ymwadu â Gladstone yn gyfangwbl. Nid oedd miloedd ar filoedd o'r rhai a ddychrynwyd yn y modd hwn yn gwybod fod Mr. Gladstone wedi cymmeryd i fyny gwestiwn *Home Rule* pan y gwnaeth, oblegyd fod gofynion y cynnrychiolwyr Gwyddelig wedi dyfod yn y diwedd i fod yn bennodol ac yn rhesymol; a'i fod yn neilldnol wedi gosod i lawr yr athrawiaeth fod yn rhaid i *Home Rule* fyned law-yn-llaw â chadwraeth undeb yr Ymherodraeth a goruchafiaeth y Goron. Ac ni welent ar yr amser hwnw mai

MR. GLADSTONE OEDD YR UNDEBWR MWYAF GWIRIONEDDOL YN LLOEGR,

oblegyd yr oedd yn cynnyg rhoddi i'r Iwerddon yr hyn a fyddai yn boddloni mwyafrif aruthrol y bobl Wyddelig. Byddai cynnygiad Mr. Gladstone i roddi i bobl yr Iwerddon yr hawl i drefnu eu gorchwylion cartrefol eu hunain, ac i roddi eu cylch priodol o waith i deimladau a chymhwysderau gwladgarol y Gwyddelod, yn sicr o arwain at undeb sylweddol, oblegyd byddai yn gosod diolchgarwch yn lle digofaint, ymddiriedaeth yn lle drwgdybiaeth, heddwch yn lle terfysg, ac mewn amser, cariad yn lle cas. Mae

CYFANRWYDD YR YMHERODRAETH,

wrth gwrs, yn beth i ofalu am dano, ac mae y dymuniad am dano yn beth ddylid ei barchu; ond mae eisieu arnom ni i gyd fod ar ein gwyliadwriaeth yn erbyn rhyw efelychiad ffugiol o serch at "gyfanrwydd yr Ymherodraeth," oblegyd, mewn rhai achosion, nid yw ond amlygiad o'n hawliau hunanol ein hunain, ac o'n penderfyniad i wneyd, fel y dywedir, yr hyn sydd yn eiddo i ni. Nid yw gwrthwynebiad i *Home Rule* er mwyn cadw cyfanrwydd yr Ymherodraeth, mewn llawer enghraifft, yn ddim ond ein hen gyfaill *Jingoism* mewn ffurf arall, gyda'i het ar ei wegil, fel y desgrifiai Iarll Caernarfon ef unwaith, yn swaggro ar hyd Heol Fawr Ewrop. Onid ydym ni yn hollol sicr fod y rhai a floeddient yn erbyn tori i fyny yr Ymherodraeth, ar ol y cwbl, yn gwneyd eu rhan i feithrin nwydau a rhagfarnau iselaf y bobl? Ond

PA BETH YW HOME RULE?

Mae camddarluniad, camddealldwriaeth, rhagfarn, anwybodaeth, ac ofn, wedi gwneyd llawer ag y bydd yn rhaid ei ddadwneyd, yn neilldnol yn mhlith y dosparth gweithiol yn Lloegr; ac etto, dylai gweithwyr, uwchlaw pawb ereill, deimlo dyddordeb yn estyniad yr egwyddor o *Home Rule*, nid yn unig i'r Iwerddon ond i Ysgotland, i Gymru, i Lundain, ac i bob rhan o Loegr.

Am genedlaethau, nid oes y fath beth â *Home Rule* wedi bodoli yn yr Iwerddon; ond yr ydym wedi ceisio llywodraethu yr Iwerddon o

Lundain, ac nid ydym wedi gwneyd dim ond methu. Mae attalfa wedi ei osod ar waith a masnach Wyddelig; mae talent Wyddelig wedi ei llethu a'i phasio heibio gyda dirmyg; ac mae gwladgarwch Gwyddelig wedi ei droi yn fradwriaeth. Ar dir yr Iwerddon, ag sydd yn ngafael gwyr y teitlau a'r arian o Loegr, nid oes le i ymdrech onest a dadblygiad naturiol gweithgarwch y Gwyddel. Mae gwrteithiwr y tir wedi bod am genedlaethau, i bob pwrpas, yn gaethwas. Llafuriai dros ei feistr tir, nid drosto ei hun. Pe byddai yn sychu cors a'i gwneyd yn ffrwythlawn, gafaelai y meistr ynddi, a mynai y rhent am dani. Pe byddai efe yn adeiladu caban neu ysgubor, cymmerai ei feistr feddiant o hono, a chawsai yntau dalu am ei ddefnyddio. Pe byddai yn achlesu planu neu hau, yr oedd y gwerth ychwanegol yn perthyn i'w feistr, yr hwn a godai y rhent yn uniongyrchol. Os methai dalu y rhent yn ei bryd, efallai heb fod un bai arno ei hun, cawsai ei droi allan o'i gartref, gan adael ar ol ennillion celyd cenedlaethau, efallai. Bu eglwys estronol yn ysglyfaethu ar ei gefn nes i Loegr gywilyddio o herwydd hyny, a gosod terfyn arni. Mae llywodraeth estronol wedi bod yn ei reoli, a chanolbwynt y llywodraeth ydyw castell. Mae senedd estronol wedi bod yn gwneyd deddfau iddo, ac am genedlaethau ni roddodd iddo un llais yn newisiad y dynion oeddynt yn eu gwneyd. A ydyw yn syndod fod y bobl wedi eu magu i fyny gyda'r dymuniad am *Home Rule* wedi ymffurfio yn eu gwaed a'u hesgyrn? Ac fe ddylai Saeson ac ereill ddeall mai yr *Home Rule* a geisiant yw yr hawl i edrych ar ol eu gorchwylion cartrefol eu hunain; ac yn sicr, hwy sydd yn gwybod oreu eu hangenion a'u hadnoddau eu hunain.

NID YDYNT YN CHWENNYCH GWAHANU ODDIWRTH LOEGR.

Gwyddant yn rhy dda werth yr amddiffyniad mae undeb â Lloegr yn ei sicrhau iddynt i ddymuno am wahaniad. Nid ydynt yn teimlo un chwant i gymmeryd rhan yn nghwerylon drygionus a gwastrafflyd y Cyfandir; a gwyddant yn ddigon da y bydd hi yn ddigon o dreth ar eu nerth a'u medr hwy i ofalu am eu gorchwylion eu hunain.

A ydyw gweithwyr ac amaethwyr Lloegr yn myned i omedd i weithwyr ac amaethwyr yr Iwerddon yr hawl elfenol hon o hunan-lywodraeth? A ydyw yn bossibl y parha dynion sydd yn caru rhyddid i ddefnyddio hen arfau gormesol a gorfodol yr oesau sydd wedi myned heibio, er mwyn llethu dymuniad naturiol pobl gwladgarol i gymmeryd eu bywyd cartrefol i'w dwylaw eu hunain? Dichon i hyn barhau am amser, tra fyddo Lloegr yn cael y trechaf ar ei rhagfarnau a'u hofnau, ac, feallai, ar ei hyspryd gormesol; ond yn y diwedd, bydd Lloegr yn *drue* iddi ei hun, ac fe adawa i "gyfiawnder gael ei wneyd er i'r nefoedd syrthio."

OND A YDYW YR IWERDDON YN ADDAS AR GYFER HOME RULE?

Mae yn anhawdd dweyd. Gallasem ateb y cwestiwn hwna fel y darfu i Wyddel ateb unwaith pan y gofynid iddo a allasai chwareu y

fiddle. "Wn I ddim," meddai, "'threiais I ddim erioed." Ac nid yw yr Iwerddon erioed wedi treio *Home Rule.* Gwyddom un peth—nas gellir dysgu y gelfyddyd o lywodraethu mwy nâ'r gelfyddyd o chwareu'r *fiddle* ond trwy brofiad. "Ond," fe ddywedir, "mae *Home Rule* yn golygu fod llywodraeth yr Iwerddon yn cael ei throsglwyddo i ddynion ydynt yn euog o droseddau anfad, ac i'r rhai ydynt yn myned oddiamgylch gan wneuthur areithiau tanllyd a chyffrous yn erbyn deddf a threfn yn y wlad?" A ydyw hi felly? Darfu i Arglwydd Randolph Churchill, wrth wawdio *Home Rule*, ofyn a oeddem ni yn myned i drosglwyddo y llywodraeth i'r Cynghrair Cenedlaethol? Gwyddai yn well. Gwyr yn eithaf da mai y cynnygiad yw, trosglwyddo llywodraeth gartrefol yr Iwerddon i'r bobl Wyddelig—nid i ddosparth, plaid, neu gynghrair, ond i genedl. A phaham lai?

Yn nyddiau boreu yr undebau masnachol *(trade unions)*, yr oedd troseddau erchyll yn cael eu cyflawnu; ac yr oedd digon o bobl i'w cael a gondemnient yr undebau, ac hyd y nod y dosparth gweithiol fel cyfangorff, oblegyd y troseddau hyn; ond yr oedd rhai o honom, yn y dyddiau hyny, bob amser yn gwrthdystio nad oedd yr un gweithiwr allan o ddeg mil yn cymmeryd rhan yn un o'r troseddau hyn. Mae felly yn awr yn yr Iwerddon. Hyd y nod mewn amserau o chwyldroad, pan nad oes tywallt gwaed, mae rhai troseddau yn cael eu cyflawnu ar ran yr achos pa mor dda bynag y byddo; ond gadewch chwi i *Home Rule* gael ei sefydlu a'i osod ar waith, ac yn fuan bydd synwyr da a greddfau ceidwadol y bobl yn sicr o wahanu yr us oddiwrth y gwenith, y terfysgwyr oddiwrth y gwleidyddwyr, dynion sydd yn siarad oddiwrth ddynion sydd yn gweithio. Gyda *Home Rule* ar waith, deuai y bobl i deimlo dyddordeb mewn trefn, a chawsent gymhelliad i wneyd ac i barchu deddfau daionus, ac yn fuan, rhoddid terfyn ar holl gynlluniau y Ffeniaid a gwyr y *dynamite.* Yn sicr, yr oedd Mr. Parnell yn siarad synwyr pan y dywedai yn Nhy y Cyffredin, "A ydych chwi yn ymofyn cael trefn yn yr Iwerddon? Treiwch effaith hunan-lywodraeth. Os bydd pobl Kerry yn parhau i gyflawnu troseddau yn erbyn y gyfraith, cânt allan yn fuan na wna y rhan arall o'r wlad ddim eu goddef."

MAE GREDDF GWLADGARWCH YN BETH CYSSEGREDIG,

ac mor nerthol ag ydyw yn gyssegredig. Paham y gwrthodwn ni ei gefnogi, paham y ceisiwn ni ei ddarostwng a'i lethu? Dyma bobl dwymgalon, yn berchen ar yspryd barddonol a dychymmygol i raddau pell, yn caru eu gwlad oblegyd llawer o resymau, ac nid llai am eu bod wedi dyoddef cyhyd. Paham yr edrychwn ni ar eu dymuniad i gymmeryd eu bywyd cartrefol i'w dwylaw eu hunain fel bradwriaeth? Oni ddylai pobl fel ni sydd yn caru rhyddid lawenhau wrth weled dymuniadau o'r fath, a gwneyd yr hyn sydd angen, er eu meithrin, eu boddloni, a'u cymmeradwyo? Darfu i Lundain unwaith groesawi Kossuth, a dangos ei serch at Garibaldi. Paham? Nid yn unig am eu bod wedi ymdrechu gwaredu pobl o dan iau gormes, ond am iddynt ymdrechu sicrhau i genedl yr hawl i'w bywyd ei hun. Felly, hyd y

nod os nad ydyw llywodraeth y Saeson yn ormes yn yr Iwerddon, paham y maent yn trin fel bradwyr neu elynion y dynion hyny sydd yn gofyn i'r Iwerddon ddim ond rhan o'r hyn a ofynai Kossuth a Garibaldi i Hungary ac Itali?

DYWEDIR WRTHYM FOD YR IWERDDON YN RHANEDIG,

ond y mae yn fwy unol nag y bu Lloegr erioed ar unrhyw gyfwng pwysig yn ei hanes; ac etto, mae Lloegr wedi dyfod allan o'r holl gwerylon a'r cynhyrfiadau fel yr aur wedi ei brofi trwy dân. Paham? Oblegyd fod ein gwahaniaethau wedi dysgu i ni ddyoddefgarwch ac amynedd; ac felly yr ydym wedi teithio yn mlaen at rywbeth tebyg i gydraddoldeb ac ewyllys da y naill at y llall; ac yr ydym wedi cael allan ar hyd yr holl ffordd mai trwy yr ystyriaeth briodol o hawliau ein gilydd yr ydym wedi dysgu y gelfyddyd o fyw gyda'n gilydd, yr hyn ydyw bywyd ac enaid gwareiddiad. Ac yn yr Iwerddon, nid oes dim a wnelai gymmaint o ddaioni i bleidiau gwrthwynebol, â'u dwyn at eu gilydd i fod yn gyfranog yn y cyfrifoldeb uchel o ofalu am eu gwlad eu hunain; ond y gwirionedd yw, mae mwyafrif aruthrol y bobl Wyddelig yn ffafr *Home Rule*—gymmaint yn ei ffafr ag y gall pum' miliwn mewn rhywle fod yn ffafr rhywbeth.

PA RAI YDYNT Y CANLYNIADAU DRWG SYDD I'W HOFNI?

Pan y gosodir ar yr Iwerddon y baich o gyfrifoldeb am ei bywyd cartrefol ei hun, a phan y byddwn ninau yn atebol am ei hamddiffyn yn erbyn y byd, onid yw yn naturiol credu y bydd hi yn annghofio adgofion chwerwon y gorphenol, ac yn dysgu ymddiried i ni, ac hyd y nod i fod yn ddiolchgar i ni. Nid yw y Gwyddelod yn ffyliaid. Maent yn gyflym o ran eu meddyliau, yn ddiwyd, ac yn llawn bywyd; ac nid oes amheuaeth na ddysgent yn gyflym y gelfyddyd o hunan-lywodraeth—ie, ac o hunan-reolaeth hefyd, pan fyddai y cyfrifoldeb llawn am eu hymddygiad wedi ei osod arnynt. Heddyw maent yn dymuno drwg i ni, oblegyd mai ychydig iawn o ddaioni ydym ni wedi ei wneyd iddynt hwy; ond gadewch i ni eu trin mewn yspryd brawdol, ac fe ddysgant yn fuan i werthfawrogi ein cyfeillgarwch, ac i fod yn help yn lle perygl mewn rhyw awr o angen. Ond pe byddai'r gwaethaf yn dygwydd, a phe byddai'r bobl, o herwydd eu ffolineb a'u drygioni, yn methu gwneyd y defnydd iawn o fendithion *Home Rule*, y peth hawddaf yn y byd yw gosod ein llaw fawr arnynt, a'u troi yn ol i'r sefyllfa ag y maent ynddi heddyw. Heb fyddin, heb lynges, heb amddiffynfeydd, byddent at ein trugaredd, ac ni fyddai ond gwaith wythnos i'w hamddifadu o'r breintiau ag a fyddent wedi eu camddefnyddio. Ond pwy ag sydd yn adnabod y natur ddynol all gredu y byddai yr Iwerddon, gyda gofal ei bywyd ei hun yn ei llaw, yn waeth Iwerddon iddi ei hun ac i ninau, nag ydyw hi yn awr pan yn cael ei dirmygu, ei darostwng, a'i gormesu. Clywais ddyn unwaith yn gosod y mater hwn mewn modd effeithiol iawn. Dywedai ystori am bâr ieuanc newydd

briodi, gyda'r rhai yr oedd mam-yn-nghyfraith yn byw, ac etto, nid oeddent yn ddedwydd! Yn mhen amser, bu hi mor gall â'u gadael iddynt eu hunain ac i *Home Rule*. Yr oedd yr effaith fel pe byddai rhyw swyn ar waith. Yr oedd pobpeth yn myned yn mlaen yn gyssurus; ac yn nghwrs ychydig amser, daeth y fam-yn-nghyfraith bron i gael ei pharchu, ac nid oedd gwell croesaw i neb i ddyfod yno i dê. Mae y wers yn amlwg.

PAHAM NAD YMDDIRIEDWN YN Y BOBL WYDDELIG?

Yr wyf wedi dweyd nad ydynt yn ffyliaid. Nid ydynt yn gythreuliaid ychwaith; maent yn genedl lawn o serch, brwdfrydedd, a thalent, ac nid ydynt erioed wedi cael cyfleusdra iawn. Yr ydym am genedlaethau wedi appelio at eu hochr waethaf. Edrychwch mor gyflym y maent yn ateb pan mae rhyw un yn garedig iddynt; sut y glynant wrth Arglwydd ac Arglwyddes Aberdeen, oblegyd fod y bobl garedig hyny yn cydnabod y daioni oedd ynddynt, ac yn appelio ato; sut y maent yn credu yn Mr. Gladstone; mewn yspryd mor ddiolchgar maent yn gweithio gyda dyeithriaid sydd yn dangos cydymdeimlad â hwy, ac yn sefyll wrth eu hochr ar delerau cydraddol! Onid yw yn bossibl gwneyd defnydd o ochr dda eu natur trwy roddi iddynt yr hawl i weithio er mwyn eu gwlad eu hunain gartref?

Ond wedi'n, dywedir wrthym nad oes dim eisieu ar yr Iwerddon ond yr un fath o lywodraeth leol ag sydd yn gymhwys i Saeson, Ysgotiaid, a Chymry. A ydyw hyny yn rhesymol? Yn sicr, dylid barnu pob achos ar ei ben ei hun. Nid ydym yn gwisgo plant yr un fath, ond yr ydym yn ystyried nodweddion neillduol eu llygaid, lliw eu gwallt, &c. Pa faint mwy y dylem ni ystyried nodweddion gwahanol tymher a hanes, yn gystal ag ansawdd barnau crefyddol a gwleidyddol rhyw bobl, pan y ceisiwn ni eu llywodraethu er eu lles hwy neu ein lles ein hunain? Yr oedd Mr. Disraeli yn iawn pan y dywedai fel hyn:—"Dywedir fod cyfiawnder i'r Iwerddon yn golygu fod yr un sefydliadau yn cael eu rhoddi iddi ag sydd yn Lloegr. Nid wyf yn credu ei bod hi yn bossibl dwyn yn mlaen waeth twyll ymresymiad. Yr wyf wedi meddwl bob amser mai achos mwyaf trueni yr Iwerddon yw, fod ei sefydliadau yr un ag sydd yn Lloegr. Yn lle y sefyllfa hono o bethau, dylech geisio cael gwared o'r holl sefydliadau Seisnig ydych chwi wedi eu gwthio ar y wlad."

OND PAHAM NA FYDDANT YN FODDLAWN AR LYWODRAETH Y SAESON?

"Yr ydym yn dymuno yn dda i'r Iwerddon yn awr," dywedir, "ac yn sicr, ynte, gall yr hyn a wneir i sicrhau hawddfyd yr Iwerddon gael ei wneyd yn Westminster." Nid felly mae hi. Mae Ty y Cyffredin fel *elephant* yn ceisio tynu banner cant o gerbydau ar unwaith ac mewn gwahanol gyfeiriadau. Nis gall ei wneyd. Y ffaith yw, mae yr Ymherodraeth wedi myned yn rhy fawr i'r hen beirianwaith, ac mae eisieu rhaniad llafur. Heblaw hyny, nid ydyw yn gwestiwn yn unig o wneyd

yr hyn sydd angen ei wneyd. Os yw dyn yn caru ei wlad, ac yn credu ynddi, nid yr un ydyw, fod y peth yn cael ei wneyd ganddo ei hun a'i frodyr gartref, ac fod y peth yn cael ei wneyd gan ddyeithriaid gannoedd o filldiroedd oddiyno. Pa Sais sydd na fyddai yn well gydag ef fod Lloegr yn gwneyd camsyniadau wrth geisio gofalu am dani ei hun, nà phe byddai hi yn myned ar y ffordd iawn o dan reolaeth ryw allu arall? Ond yn sicr, mae yn rhesymol credu y gofelid yn well am y Gwyddelod yn Dublin, pan y mae Gwyddelod yn gwneyd y gwaith, nag yn Westminster, gyda Saeson, Ysgotiaid, a Chymry yn ei wneyd drostynt.

A ydyw hi mor amlwg ag y mae rhai pobl yn meddwl, fod gyda hi hawl i wthio i eithafoedd y syniad mai ni yw y gallu llywodraethol, ac mai ni sydd i ddweyd sut mae yr Iwerddon i gael ei llywodraethu? A oes gan yr Iwerddon ddim hawliau mewn perthynas i hyny? Ond pa beth a olygir wrth lywodraethu? Hyd y nod wrth lywodraethu plentyn, mae dull i'w gael heblaw ei guro a rhwymo ei ddwylaw tu ol i'w gefn. Ar y pwnc hwn rhoddodd Arglwydd Randolph Churchill, er ys peth amser yn ol, un enghraifft yn mhlith llawer o'i ddull *loose* o feddwl a siarad. Dywedai, "Pa beth, wedi'r cwbl, yw yr hyn a ofyna Mr. Gladstone yn bresenol? Dyma ba beth y ceisia ef genych chwi, Saeson ac Ysgotiaid, wneyd, yw rhoddi i fyny yn gyfangwbl yr ymdrech wrth yr hon yr ydych chwi wedi bod yn gweithio cyhyd, a chyhoeddi i'r byd eich anallu i lywodraethu yr ynys hon, yr Iwerddon, gyda'i phum' miliwn o boblogaeth. Dyna yr hyn a geisia. Yr ydych yn llywodraethu India a Chanada; yr ydych yn llywodraethu tri chant o filiynau o bobl yn gyfangwbl. Ceisia Mr. Gladstone genych gyhoeddi i'r byd gwareiddiedig eich bod chwi, y genedl Anglo-Sacsonaidd, yn analluog l lywodraethu, gydag unrhyw beth tebyg i weddusrwydd a thawelwch, bum' miliwn o bobl Wyddelig."

Mae hyn yn addysgiadol, oblegyd mae yr ateb mor amlwg. Y ffaith annymunol yw, ein bod ni *wedi* profi ein hunain yn "analluog i lywodraethu, gydag unrhyw beth tebyg i weddusrwydd a thawelwch, bum' miliwn o bobl Wyddelig." 'Does dim eisieu i ni "gyhoeddi" hyny: mae'r peth yn cyhoeddi ei hun. Ond pa beth mae Arglwydd Randolph Churchill yn ei olygu wrth yr edliwiad hwn?—"Yr ydych yn gweled y gallwch lywodraethu India fawr, Awstralia, a Chanada; ac a ydych chwi yn myned i ddweyd nas gallwch chwi ddim llywodraethu Iwerddon fach?" Yr ateb yw (heb ddweyd dim am India), nad ydym ni ddim yn llywodraethu Awstralia a Chanada yn yr ystyr ag y mae ef am i ni lywodraethu yr Iwerddon; ac nis gallem eu llywodraethu felly. Yr ydym, yn wir, yn llywodraethu Awstralia a Chanada; ond yr ydym yn eu llywodraethu fel yr ydym yn cynghori y Saeson i lywodraethu yr Iwerddon—trwy roddi iddynt *Home Rule*. Mae yr egwyddor hona yn gweithio yn Awstralia ac yn Canada, ac yn sicr fe weithia hefyd yn yr Iwerddon. Yn Awstralia a Chanada mae wedi arwain i ymddiried a serch; paham na fydd yn rhaid iddi arwain i'r un peth yn yr Iwerddon? Allan o'i enau ei hun, fel arfer, mae Arglwydd Randolph Churchill wedi ei gondemnio.

NID OES YR UN LLWYBR ARALL;

Hyny yw, nid oes yr un ellir ei oddef: yr unig lwybr arall ydyw trais lywodraeth, a chyda'r crybwylliad o hono yn unig yn nghlyw pobl wareiddiedig a'r rhai sydd yn caru rhyddid, yr wyf yn gadael y pwnc. Bydd dynion ag sydd yn ymdroi gyda manylion yn siarad am draul y peth hwn a'r llall, am golli ein gogoniant fel cenedl, neu am ddylanwad anmhriodol rhyw ffydd grefyddol neu gilydd, neu byddant yn gofyn fod rhyw arwyddnod o oruchafiaeth Lloegr yn aros; ond y mae hyn i gyd yn debyg i ddyn yn cweryla am ychydig ddimeiau pan yn talu *bill* o gannoedd o bunnau.

Gadewch i ni benderfynu cwestiwn y tir ar y sylfaen o brynu allan y tirfeddianwyr a gwneyd tir yr Iwerddon yn eiddo cenedlaethol er lles yr Iwerddon; ac yna, gydag ammodau priodol i sicrhau undeb yr Ymherodraeth, gadewch i ni yn ddiofn roddi i bobl yr Iwerddon *Home Rule*. Yna, gallwn deimlo boddlonrwydd cydwybod fel dynion sydd wedi bod yn ffyddlon i'r hen eiriau gogoneddus, "Byddwch gyfiawn ac nac ofnwch;" ac hyd y nod os methwn ni, gallwn gyssuro ein hunain ein bod wedi ceisio gwneyd peth oedd yn iawn, yn wrol, ac yn anhunanol.

Calan, 1887. JOHN PAGE HOPPS.

TROEDIAD ENGYL.

(Cyfieithad o "*Angel Footsteps.*")

Pan ddarfydda'r dydd arafol, pan ddaw lleisiau'r nos ddi-gur,
Gan ddeffroi ein natur fewnol, i fwynhad sancteiddiol, pur.

Cyn goleuo lampau'r cyfnos, pan fo'r llewyrch gwibiog, gwân,
Yn dwyn prudd gysgodau'i aros, ac i ddawnsio gylch y fan.

Yna, ffurfiau'r ymadawol ddeuant o'r ysprydol dir,
Hen gyfeillion calon-burol a ymwelant â ni'n wir.

Gyda sangiad dwys, arafaidd, nef genadau oddi-draw,
Gym'rant y sedd wag yn wylaidd—rhoddant i ni dyner law.

Hwy eisteddant yn fyfyriol gyda llygaid tyner, dwys,
Fel y sêr, mor bur, mor Ddwyfol, 'drychant lawr o'r wybren lwys.

Di-leferydd, ond dirnadol, yw eu gweddïau llawn o rin;
Senau serch yn troi'n fendithiol, dorant dros eu hawyr fin.

Merthyr. IEUAN DYFED.

CYFARFOD CHWARTEROL NADOLIG, 1886.

Cynnaliwyd cyfarfod chwarterol yr Undodiaid yn yr Onenfawr, ger Llandilo, ar y Mercher a'r Iau, y 29ain a'r 30ain o Ragfyr, 1886. Yr oedd yn bresenol y gweinidogion canlynol :—y Parchedigion T. Thomas, Pantydefaid; W. Rees, Rhydygwin; John Davies, Alltyplaca; R. C. Jones, Llanbedr; W. James, B.A., Llandyssul; J. Evans, Onenfawr; W. Davies, Tabernacl (A.); J. Jones, Soar (B.); D. Morgans, Llandilo (M.); Williams (M.); Prytherch (M.); a James, Llandilo. (B.)

Dechreuwyd am 6 o'r gloch, prydnawn dydd Mercher, gan W. James; a phregethodd Rees C. Jones a W. Rees,—y cyntaf oddiwrth Ioan xviii. 27; a'r olaf oddiwrth Galarnad Jeremiah iii. 39, 40,—yn addysgiadol iawn.

Dydd Iau, am 10.30 y boreu, dechreuwyd y gwasanaeth gan T. Thomas, a phregethodd W. James i gynnulleidfa dda, oddiwrth 2 Breninoedd x. 28, 29. Dywedai y pregethwr fod y testyn yn hen, Jeroboam fab Nebat yn hen; ond nid yw pechodau Jeroboam yn hen. Aeth yn mlaen, gan nodi llawer o'r pechodau sydd yn britho cymdeithas yn yr amser presenol. Yr oedd ei sylwadau yn darawiadol, a'i annogaethau yn rymus a nerthol er gochelyd y cyfryw bechodau, fel y byddai i wedd arall a gwell ddyfod ar gymdeithas. Canmolid y bregeth yn fawr gan bobl o enwadau ereill oeddynt yn bresenol, yn gystal a chan y brodyr yn y lle. Rhwydd hynt i Mr. James fyned yn mlaen â'i waith yn nghyflawnder yspryd y bregeth hon, a *boycotio* holl bechodau, mawr a mân, yr oes.

Y Gynnadledd. J. Evans yn y gadair. Yr oeddid wedi cyhoeddi fod Mr. Rees i ddarllen papyr ar "P'un ai rhydd neu rhwym yw'r Ewyllys," ond gomeddodd ymgymmeryd â'r testyn, er ei fod, yn meddwl yr ysgrifenydd, gyda'r goreu yn mhlith gweinidogion yr enwad i'w drafod. Dewisodd ddarllen papyr ar "Beth yw dyledswydd cynnulleidfaoedd a gweinidogion ganddynt tuag at gynnulleidfaoedd bychain heb weinidogion." Gwnaeth sylwadau pwrpasol iawn fel yn perthyn i'r enwad; ond meddyliem eu bod yn rhy gyfyngedig, fel ag i gael rhai o enwadau ereill i siarad ar y pwnc.

Dywedai R. C. Jones fod y cwestiwn yn annghymhwys—nad yw yn angenrheidiol cael gweinidog cyn cael addoliad, &c.

Meddyliai T. Thomas fod y cwestiwn yn eithaf cymhwys, ac ar yr un pryd, efe a agorodd y maes dipyn yn helaethach—dylai mwy o gydundeb fod rhwng y gwahanol enwadau.

Cyfarfod Chwarterol y Pasc. Cynnygiwyd gan J. Evans, ar gais y Parch. R. J. Jones, A.C., yr hwn oedd yn absenol, fod cyfarfod chwarterol y Pasc i gael ei gynnal yn yr Hen-Dŷ-Cwrdd, Aberdar, ac eiliwyd gan J. Davies, a phenderfynwyd hyny yn ddiwrthwynebiad.

Cyfarfod 2 o'r gloch. Aethpwyd drwy y rhan ddefosiynol o'r gwaith gan J. Davies, a phregethwyd yn adeiladol iawn gan R. C. Jones a J. Davies, y cyntaf oddiwrth Luc x. 30—36; a'r olaf, Phi-

lipiaid iii. 9, " Ac y'm ceir ynddo ef heb fy nghyfiawnder fy hun," &c. A da oedd genym glywed y brawd J. Davies yn trafod ei destyn mor dda a theg yn nghlyw y nifer mawr oedd yn bresenol o wahanol syniadau i'r Undodiaid.

Drwy garedigrwydd y gweinidog a'r brodyr yn y Tabernacl, Llandilo, capel yr Annibynwyr, cynnaliwyd y cyfarfod 6 o'r gloch yno. Daeth yn nghyd gynnulleidfa dda. Dechreuwyd gan J. Davies, a phregethwyd yn Saesonaeg gan y Parch. J. E. Manning, A.C., Abertawe, oddiwrth Actau iii. 6. Yr ydym yn deall ei fod wedi cael cymmeradwyaeth uchel gan bawb. Sonir am ei gael ef i fyny i bregethu etto i Landilo, os y daw. Traddodwyd pregeth yn Gymraeg, ar ei ol, gan y Parch. T. Thomas, testyn, Luc. ii. 11. Trafododd y pregethwr ei bwnc yn feistrolaidd, yn ol ei arfer, gan ddylyn y llinell esponiadol mewn perthynas i enedigaeth Iesu Grist, a pha beth ydyw i ni, &c. Siaradodd yn deg a dealladwy, fel na fuasai'r brodyr o wahanol syniadau yn camddeall ei safle, a hyny heb ddywedyd dim a fuasai yn achos o dramgwydd i neb.

Bu'r brodyr a'r chwiorydd yn yr Onenfawr, er mai ychydig ydynt, ar eu heithaf i wneuthur y cyfarfodydd hyn yn ddymunol. Mae gair o ganmoliaeth yn wir ddyledus i Mrs. Davies, Llandilo, nid yn unig am ei hymdrech o blaid y cyfarfodydd hyn, ond hefyd am ei sel, a'r draul barhaol y mae hi yn myned iddo, er cynnal yr achos i fyny yn y lle.

Mae arnom rwymau i ddiolch i'r cyfeillion a'r cyfeillesau yn y gymmydogaeth, pobl perthynol i enwadau ereill, am y parodrwydd i helpu yn mhob rhyw fodd a ddangosasant yn amser y cyfarfodydd hyn. Da oedd genym weled yspryd rhyddfrydig mor flodeuog; yn mlaen yr elo fwy-fwy.

Er gwedi ychydig gamddealldwriaeth a byrbwylldra rhywrai neu gilydd mewn perthynas i'r cyfarfodydd hyn, ac a fu bron fod yn angeu iddynt unwaith, ac i fesur yn niweidiol, o bossibl, i'r achos yn y lle, etto, cawsom gyfarfodydd rhagorol yn mhob ystyr. Bendith Duw fyddo ar yr ymdrech. J. E.

YMDDYDDAN AR Y BEIBL A CHREFYDD.

Mr. Jones.—Yr wyf yn addef y byddai cyn hawdded genyf fi gredu mewn pedwar person yn y duwdod, a chredu mewn tri, pe buasai yr un awdurdod Ysgrythyrol dros hyny.

Myfyriwr 1.—Yr wyf finau'n amheu a ydych chi ddim yn gwneuthur camddefnydd o'r Ysgrythyr felly, ac yn gosod eich ffydd mewn perygl wrth ei seilio felly ar y Beibl.

Mr. J.—Ar ba beth arall y caf fi seilio fy ffydd. Y Beibl ydyw sylfaen fy ffydd I, a'm gobaith am fywyd tragwyddol.

M. 1.—Yr wyf finau yn gwerthfawrogi'r Beibl yn fawr, ac yn edrych arno fel y goreu o lyfrau, yn help i ffydd, i obaith, ac i fywyd tra-

gwyddol; ond nid wyf yn gallu dywedyd y gallwn I gredu mewn pedwar person yn y duwdod, hyd y nod pe byddai awdurdod Ysgrythyrol dros hyny. Pan fyddaf fi'n credu peth, byddaf yn ei gredu, nid am ei fod yn y Beibl, ond am ei fod yn ymddangos i mi yn wir.

Diacon 2.—A gredai Mr. Jones mai dn yw gwyn ar awdurdod yr Ysgrythyr?

Myfyriwr 2.—Fel mater o ffaith, nid wyf fi'n credu fod fawr sylfaen yn yr Ysgrythyr i athrawiaeth y tri pherson na phedwar. Gwn fod offeiriad wedi cyhoeddi llyfr unwaith gyda llawer iawn o ymddangosiad o wybodaeth i brofi teilyngdod Moses i gael ei gyfrif fel pedwerydd berson yn y duwdod; ond nid oedd ei resymau yn cario argyhoeddiad i fy meddwl I. Dangos oedd fod y profion dros dduwdod Moses yn gyffelyb i'r profion dros dduwdod Crist, ac yn ei dyb ef yr oeddynt yn gryfach. Ond fel hyn y byddaf fi yn edrych ar y mater, os na fydd athrawiaeth trindod neu bedwardod yn wir, nid yw o un dyben i edrych am adnodau i'w hategu, ac, os yw yn wir, mae yn wir yn annybynol ar yr adnodau.

Myfyriwr 3.—Nid oedd fawr sylfaen erioed yn yr Ysgrythyr i athrawiaeth y drindod, ac yn y cyfieithad diwygiedig nid oes dim lliw o sylfaen, wedi symmud adnod y "tri thyst" allan o 1 Ioan v. 7. Yn wir, cawn fod Pabyddion dysgedig yn cyfaddef nad oes sylfaen i'r athrawiaeth yn yr Ysgrythyr. Y maent hwy'n myntumio mai yn nhraddodiadau eu heglwys hwy yn unig y mae profion gwirioneddol yr athrawiaeth. Yr eglwys a'i thraddodiadau ydyw sylfaen gwirionedd athrawiaeth i'r Pabydd.

D. 2.—Ond fel Protestaniaid, yr ydym ni yn ymwrthod â Phabyddiaeth a'i thraddodiadau yn ogystal.

M. 1.—Ac ar yr un pryd yn trosglwyddo'r ysbryd o'r naill i'r llall, trwy briodoli i'r Beibl yr anffaeledigrwydd a gyssylltir â'r Pab gan y Pabydd.

M. 3.—Mae un offeiriad wedi cyhoeddi yn ddiweddar y dylai adnod y "tri thyst" gael aros yn y Beibl, am ei bod yn wir, ac am ei bod wedi aros cyhyd yno. Yr wyf yn addef y gall peth fod yn wir heb fod yn y Beibl, ond nid wyf yn credu y dylai fod dim yn llythyrau Ioan, ond yr hyn a ysgrifenodd Ioan ei hunan. Os na ddarfu i Ioan ysgrifenu adnod y "tri thyst," nid wyf yn gweled paham y dylai'r adnod hono gael aros. Wrth gwrs, y mae pwnc gwirionedd yr adnod ar wahan oddiwrth bwnc awduraeth yr adnod; ac yr wyf yn barnu fod gwirionedd a gwerth adnod i bob un i'w barnu gan bob un drosto ei hunan. Ac am anffaeledigrwydd—

D. 3.—Esgusweh fi, ond nid wyf fi yn proffesu gwrthod peth oblegyd fod y Pabydd yn ei gredu. Nid oes dim synwyr yn hyny i mi. Gwirionedd yw gwirionedd, ac anwiredd yw anwiredd, pa un ai Pabydd neu Brotestant fyddo'n ei goleddu.

M. 2.—Nid yw dringlyn awrlais gwirionedd byth yn llonydd.

M. 1.—Nid wyf yn credu yn anffaeledigrwydd y naill du na'r llall i'r dringlyn; nac yn yr ysbryd a gynnyrchir weithiau gan broffeswyr anffaeledigrwydd.

M. 2.—Yr wyf fi yn foddlawn derbyn pa wirionedd bynag a ganfyddaf yn mhob man. Wrth wrthod y drwg, nid oes eisieu gwrthod y da hefyd, ac nid oes genyf fi'r un cydymdeimlad â'r dynion eithafol hyny ydynt yn barod i daflu peth dros y bwrdd, oblegyd eu bod wedi gweled brycheuyn arno.

M. 3.—Cawn ofergoeliaeth ac annghredíniaeth yn fynych yn myned gyda'n gilydd; a dywedir fod mwy o anffyddiaeth mewn gwledydd Pabyddol nag mewn gwledydd Protestanaidd. Nid oes genyf fi'r un cydymdeimlad â'r yspryd tynu i lawr a ganfyddir genym weithiau.

M. 2.—Gall pob ffwl dynu i lawr. Gall un ffwl yn fynych wneuthur mwy o ddrwg nag a all deg o ddynion da ei iawnhau.

M. 3.—A fynwch chi dynu y goleudy i lawr am fod hollt yn nghwarel y ffenestr? A fynwch chi ddiffodd yr haul am fod ysmotiau arno? A fynwch chi ddifodi y Beibl am y tybiwch fod brychau arno?

Mr. J.—Beth ond difodi y Beibl y mae rhai o honoch chwi yn geisio wneuthur wrth ei ddibrisio fel yr ydych, i'm tyb I?

D. 2.—Nid wyf fi'n cyduno dim â hynyna. Nid oes yma neb yn ceisio at hyny. Yr ydym oll yn caru y Beibl, ac yn awyddus i wneuthur pob cyfiawnder ag ef. Nid yw y Beibl yn hawlio anffaeledigrwydd, a phaham y gwnawn ni briodoli anffaeledigrwydd iddo?

M. 1.—Yr wyf fi yn gwerthfawrogi y Beibl uwch pob llyfr arall.

M. 2.—Nid yw yn ngallu neb i ddifodi y Beibl; ond yr wyf yn credu y dygir ef i anmharch yn llawn cymmaint trwy ddylanwad ofergoeliaeth â thrwy ddylanwad anffyddiaeth.

M. 3.—Cawn yn y Beibl hanes y genedl ryfeddaf, feallai, a welodd y byd erioed, hanes ei dadblygiad i sefyllfa uchel, hanes ei dynion mawrion, a'r Iesu y mwyaf a'r goreu o honynt oll. Ac y mae'r hanes yn esiampl i ninau, yn help i ni.

D. 1.—Yr wyf yn meddwl, er cymmaint y gwahaniaethwn, ein bod oll yn ymofynwyr difrifol am y gwirionedd; ac nad oes neb o honom yn amddifad o'r parch dyladwy i bob cangen o grefydd.

D. 2.—Yr wyf fi'n barnu fod pob sect, ac yn neilldnol yn ei chychwyniad, yn awyddus am y gwirionedd, ac yn gwneuthur pob gwahaniaeth yn bwne cydwybod.

D. 3.—Yr wyf fi'n rhyw hanner credu nad yw pob athrawiaeth ond cais y meddwl dynol i osod allan rhyw wirionedd tybiedig.

M. 2.—Yr wyf fi'n hollol credu hyny; ac felly, nid oes genyf fi'r un cydymdeimlad â gwawdwyr o un math, y rhai ydynt yn nodi allan gamsyniadau tybiedig Moses, heb wneuthur un ymgais i weled y gwirioneddau yn y llyfrau a briodolir yn gyffredin i Moses. Hyd y nod os oes camsyniadau yn y Beibl, ac nid wyf fi am fyned i'r drafferth i ddywedyd nad oes; etto, nid yw y rhai hyny yn lleihau dim ar werth ei wirioneddau. Hyd y nod os oedd Moses yn credu mai y ddaear yw canolbwynt y cyssawd heulog, ac y mae yn bossibl ei fod, nid yw hyny yn lleihau dim ar ein dyledswydd ni i ufuddhau i'r gorchymyn, "Peidiwch a gwneuthur drwg, dysgwch wneuthur daioni."

D. 2.—Nac yn lleihau dim ar werth moesol yr Iesu fel athraw ac arweinydd.

Mr. J.—Yr wyf fi yn caru y Beibl am ei fod yn wir.

D. 1.—Yr wyf finau am y gwirionedd sydd ynddo.

Mr. J.—Mae y Beibl yn ysprydoledig, ac felly yn hawlio parch.

D. 2.—Mae y Beibl yn cynnwys hanes ysprydoliaeth. Nid yn y papyr a'r inc mae'r ysprydoliaeth, ond mewn personau. Yr wyf finau yn credu fod personau yn cael eu hysprydoli.

D. 3.—Ond nid yw ysprydoliaeth wedi'r cwbl yn golygu anffaeledigrwydd. Rhaid barnu yr ysprydion ai o Dduw y maent; ac nid oes genym ni ond barnu yr hyn a ddarllenom yn ol yr argraff a gaiff arnom. Treiwn y sain, ac os bydd yn cydgordio á seiniau goreuein calon ein hunain, yna tynwn ein casgliad. Darllener y Psalm i., y Gwynfydau, Matthew V.

Gweinidog.—Yr wyf yn ddiolchgar am yr ymddyddan presenol, er heb gytuno â'r oll. Y peth mawr yr wyf am wasgu ar bawb o honoch yw, y meithriniad o yspryd parchus. Mae rhai o honoch yn rhy ieuainc etto i fod wedi *teimlo* mawredd a dirgelwch y bydysawd, mawredd a dirgelwch dynoliaeth, ac i weled trwyddynt fawredd a dirgelwch yr Anfeidrol. Fe deimla'r ystyriol fod ei yspryd yn mhob cyfeiriad yn cael ei ddwyn i gyffyrddiad ag yspryd y Tragwyddol. Y Dr. Samuel Clarke, onide, a ddywedai ei fod bob amser yn teimlo, wrth edrych ar y gwenyn yn adeiladu celloedd eu diliau mêl, fel pe byddai bys yr Anweledig y tu cefn yn cyfarwyddo. Fe deimlwn weithiau y *Rhyvbeth Rhyfedd* yn rhuad y daran a dysgleirdeb y fellten, ond yn anfynych y cyffyrddir ein teimlad gan ddirgelwch parhaus tyfiant llysiau yn ngoleuni haul.

Fe'n amgylchir yma a thraw
Gan ddirgelwch Dwyfol law,
Oll yn tystio i'r dyn ystyriol
Am ddoethineb trefn yr Anfeidrol.

Mae y meddyliau wedi amrywio yn fawr, efallai; rhodder i'r oll yr ystyriaeth ddyladwy, ac nid wyf yn meddwl y bydd lle i ofni un perygl. Maddeuer y sylwadau hyn.

H. N. (Cofiadur).

CAN Y WLADWRAIG.

(Efelychiad o "*Song of the Peasant Wife.*")

Dos, Morgan, a chliria'r ystorm ar dy ael,
Buost dda i mi gynt—'fyddi'n awr i mi'n wael?
'Ga'r ystorm aros yma pan edy y ne',
Ac oerni y Gaua'n y fron wneyd ei le?
Na, Morgan, na! mae y chwerwaf o dywydd
Yn hawdd idd ei ddwyn tra'n ei ddwyn gyda'n gilydd?

Er syrthio'r defnynau drwy'r nen hen i lawr,
A bod gwynt, lle bu drws, yn chwibanu yn awr,
'All y gwlaw, neu yr ôd, neu'r ystorm olchi ffwrdd
Yr holl addunedau wnaem gynt pan yn cwrdd ?
Na, Morgan, na ! er holl ddig yr ystormydd,
Fe'u dygwn yn rhwydd ond eu dwyn gyda'n gilydd.

Pan gynt yn yr hwyr yr ymwelit â mi,
A'r dydd oedd ar fyn'd fel ond dechreu i ni,
'Ofalem ni rywbryd am wyntoedd a gwlaw
Pan rodiem drwy gaddug nos dywell heb fraw ?
Na, Morgan ! ymgomiem yn nghanol ystormydd
Am yr oll fedrem ddwyn tra'n eu dwyn gyda'n gilydd.

Daw'n dyddiau helbulus yn fuan i ben,
A'n bronau oleuir gan lewyrch o'r nen ;
Na foed ein hysprydoedd, gan chwerwedd y boen,
Yn farw i belydrau'r pryd hwnw a'i hoen ;
Bron wrth fron, llaw-yn-llaw, fe groesawn bob tywydd,
Hin deg neu ystorm, awn drwy'r oll gyda'n gilydd.

Franklin, Pa., U.S.A. RHYS ETNA JONES.

MARWOLAETH MARI FACH.

PLENTYN i feddwyn ydoedd, ac yr oedd yn dyoddef. Ni ddyoddefai yn aml yn y ffordd greulon hono ag mae dynion ydynt wedi ymgaledu yn y ddiod, yn achosi dyoddefaint i'w rhai bychain, ond dyna fel yr oedd hi, unwaith mewn siawns. Bu adeg pan ddygai ei chorff bychan gwyn am lawer o ddyddiau bedwar ysmotyn gwyrddlas, ag oeddent nodau bysedd trymion llaw ei thad. Yr oedd y plentyn wedi annghofio y poen, ac yn yr hwyr, pan ddelai amser noswylio, yr oedd y fam yn ofalus i frysio ei gŵn nos bychan am dani, fel na allai y llygaid gleision ganfod yr ysmotiau. Heblaw hyny, ceisiai ei mam siarad â hi trwy gydol yr amser yr oedd yn ei pharotoi i'r gwely, a chadwai lygaid y plentyn yn sefydlog ar ei llygaid ei hunan. P'un a welai yr un fechan y poen yn ngwyneb ei mam, a ph'un a wyddai yr achos o'r cryndod ag oedd yn ei dwylaw brysiog, 'allwn ni ddim dweyd ; ond un noson tafiodd ei breichiau yn ddisymwth o amgylch ei gwddf a llefodd allan, "O ! mam, 'dyw e' ddim yn peru un niwed i mi bellach, ond mae yn eich niweidio chwi o hyd." A dyna'r gwir, ond mynwesai'r fam y gobaith fod y plentyn yn rhy fychan i wybod y pethau hyn. Yr oedd yn fychan, dim ond baban mewn blynyddau, ond gwyddai ei chalon fechan am felldith ei thad, a phoen ei mam. Gwyddai mai y ddiod erchyll oedd achos y cyfan. Yr oedd Duw wedi ei chreu hi fel nas gallai lai na gwybod, ac yr oedd wedi yfed i

mewn dristwch a gofid, fel y gorweddai yn faban ar fynwes ei mam. Yr oedd ei llygaid teg wedi dysgu gweled, a'i henaid i deimlo, pob cysgod ar wyneb ei mam, tra na freuddwydai neb fod yr un fechan yn deall.

Y storom sydd yn ysgwyd y coedydd brigog sydd hefyd yn plygu y millyn wrth ei wreiddyn, a gall y goeden fod yn ddigon cadarn i sefyll yn syth drachefn, tra mae'r millyn yn cael ei guro i farwolaeth. Nid y creulondeb corfforol oedd yn ei lladd hi; yr hyn a'i blinai oedd nas gallai ddwyn y caledi, y sarugrwydd a'r diffyg cariad a welai yn ei thad ac yn ei chartref. Gwnelai y ddiod ef yn groes a swrth, a'r yspryd hwn o wrthuni a dygasedd nis gallai hi ymgynnefino ag ef, na'i oddef. Nis gallai annghofio ei thad pan oedd o gartref, er fod ei mam yn ceisio tynu ei sylw a'i dyfyru, a meddyliai lawer pryd ei bod wedi llwyddo yn ei hamcan. Ond yr oedd wedi dechreu dychrynu wrth swn ei droed pan yn faban, a chrynai yn druenus wrth glywed ei lais digllawn a gweled ei edrychiad sarug. Ac yr oedd ei harswyd yn cynnyddu pryd bynag y clywai ei gerddediad yn ymddynesu at y tŷ, er ei bod yn ceisio, hyd byth ag y medrai, i guddio ei hofn oddiwrth ei mam. Ond nis medrai ei guddio oddiwrth ei thad, ac yr oedd efe yn ddig am hyny, a ffurfiodd yr arferiad o'i dychrynu â'i fygythion, a pho fwyaf yr oedd yn yfed, mwyaf i gyd yr ymhyfrydai i'w dychrynu, a theimlo ei allu drosti, tra y dirmygai ac y gwawdiai hi am ei bod mor ofnus. Yn raddol pan y meddyliodd ei bod hi yn ceisio dianc pryd bynag y gwnelai efe ei ymddangosiad, mynai iddi bob amser ei roesawi a chusan, yr hwn fynychaf a dalai 'nol mewn melldith neu ergyd. Druan a hi, nid pwys y llaw oedd yn ei blino. Yn anfynych yr oedd hono yn peru llawer o niwed iddi, ond y teimlad ei bod hi yn cael ei hysgaru oddiwrth dad ag oedd ei chalon yn hiraethu am ei barchu a'i anwylo, a'r gagendor ag y gwyddai oedd yn ffynu rhyngddynt. Beiai efe y fam, a dywedai ei bod yn dylanwadu y plentyn yn ei erbyn, yr hyn oedd yn gwneyd pethau yn waeth fyth. O dan y driniaeth drom hon yr oedd yr un fechan yn araf, heb neb bron yn sylwi ar hyny, yn symmud tuag at y diwedd.

Dywedai y meddygon, nad oedd un afiechyd corfforol arni. Nid oedd ond yn unig wedi colli etifeddiaeth brydferth ei phlentyndod, ac ni wyddai ddim am wir lawenydd a digrifwch. Er hyny i gyd yr oedd yn blentyn gwirioneddol, ac yr oedd holl bethau plant, teganau, blodau, a chwmni plant ereill, yn felus iddi, ond yn nghanol ei dyfyrwch, hi gofiai am ei thad, a chawsai ei holl bleser ei droi yn ofn. Delai tua thref bob amser yn yr un ffordd, ddim yn rhy feddw i gerdded, ond yn ddigon meddw i fod yn sarug ac yn ormesol. Pan oedd hi yn chwe' mlwydd oed, aeth i'r ysgol, ond yr oedd y meddwl am ei thad yn ei dylyn hyd y nod yno. Yr oedd arni ofn cwrdd ag e' yn y 'stryd, oblegyd pryd bynag y cymmerai hyny le, chwyrnai arni gan ei melldithio yn mhresenoldeb y plant ereill nes oedd y cywilydd a deimlai yn annyoddefol. Pe gallem ni ond agor llyfr yr angel sydd yn ysgrifenu y gwaeau a'r gofidiau a achosir gan y ddiod, a gweled y cofnodion o'r hyn sydd wedi ei ddyoddef gan blant bychain, byddai'r

hanes yn ddigon ; gallem adael tristwch mamau ac alaeth gwragedd tynergalon heb eu croniclo am byth. Feallai nad yw y driniaeth arw hon ddim yn ymddangos yn fawr iawn i ni ydym yn ddigon cryf i ddal dani, ond yr oedd yn fwy na digon i galon dyner y plentyn. O dani yr oedd hi yn symmud yn nes, nes, at y wlad lle yr oedd angelion Duw yn aros i ddangos iddi eu gofal tosturiol am dani, a phob yn dipyn dechreuodd ei mam ofni'r gwaethaf. "Perdiwch Henry," meddai yn daer wrth ei gwr, "peidiwch am ychydig fisoedd, neu hyd y nod wythnosau, oblegyd yr wyf yn sier y bydd y plentyn farw. Gwyddoch am dani, Henry, a phob nos am flynyddau y mae wedi bod yn sibrwd wrthyf, 'Mam, dywedasoch y gwnelai fy nhad ryw ddiwrnod fy ngharu a pheidio bod yn groes. Mam, pryd y bydd hyny ?' O Henry, gwyddoch beth sydd yn eich gwneyd chwi felly ; ymwrthodwch a'r ddiod, 'rwy'n erfyn arnoch, er mwyn ein merch fechan." Ac yna fe droes y tad gyda llw oedd yn ddigon uchel i gyrhaedd y plentyn yn ei gwely ar y llofft, ond ni roddes hyn hanner cymmaint o loes iddi a'r geiriau creulon, "Gadewch iddi farw."

Ar ol hyn, ni ddarfu i Mari fach byth mwyach ofyn i'w mam, yn min yr hwyr, ai ni fyddai ei thad yn ddyn da. Ar ol hyn, ymddengys nad oedd un ofn yn ei blino pan ddeuai ei thad i'r ystafell ac y dechreuai gamdrin ei mam am fod yn garedig ac yn dyner wrthi hi. Ond dylynai ei llygaid clir ef gydag edrychiad llawn o dosturi ac ymbil, yr hyn a barai iddo yn aml i ruthro allan o'r ystafell gan rwgnach a chwyrnu yn ofnadwy. Yr oedd wedi caledi ei galon yn ei herbyn, ac ni chredai ei bod hi mewn gwirionedd yn sâl.

Ond ryw ddiwrnod, pan oedd ef yn brysur wrth ei waith, dyma genad yn dyfod ato, ac yn dweyd wrtho am frysio, oblegyd yr oedd ei ferch fach yn myn'd yn gyflym. Beth ! Mari—Mari fach dyner, amyneddgar—oedd am ei garu, a'r hon ni fynai ac ni wnelai efe garu, hono yn myned ac yn myned yn gyflym ? Ymbalfalodd rywfodd i'r ty gyda chamrau nad oeddent am unwaith yn sigledig gan ddiod, a chan daflu ei hun ar draws y gwely, erfyniodd am edrychiad a gair ac un cusan. Yn ochencidio yn uchel ymddangosai fel pe bai'n aflonyddu yr hûn i'r hon oedd hi wedi syrthio, oblegyd yr oedd y talcen yn ymgrynhoi, yr aeliau gwynion, gwelw, yn crynu, ac oddiar y gwefusau crispedig fe ddyferodd y geiriau, "Gwnaf, nhad, mi'ch cusanaf. Gallwch roi ergyd i mi, 'does dim ofn ar Mari." A cheisiodd godi ei phen bychan i'w cymmeryd nhw gyda'u gilydd—y cusan a'r ergyd. Yna yr oedd yr edrychiad yn crwydro yma ac acw, yr ochenciduu fel pe yn ei haflonyddu ac yn peru blinder iddi. Un ymdrech fechan yn rhagor a gwên hyfryd ar ei gwyneb. "Peidiwch llefain, mam, 'does dim ofn 'nhad ar Mari ; dim—tamaid—o ofn ;" a phasiodd y wên a'r gair gyda'u gilydd, ac yr oedd Mari fach wedi marw. H——.

Dywedir fod eglwysi Ysgotland yn argoeli cynnydd mawr mewn rhyddfrydiaeth grefyddol. Calfinaidd iawn yw Ysgotland wedi arfer bod.

J. D. JONES, GLYNLLWYD, CRIBIN.

Y mae llawer iawn yn teimlo chwithdod ar ol Jones, Glynllwyd,
Pan y ceisiwyf ei adgofio, difrifoldeb ynof gwyd ;
Mynodd groesi glyn marwolaeth, heddyw mae yn wael ei wedd ;
Ni ddaw croes na siomedigaeth i broswylwyr dystaw'r bedd.

Gan ei fod yn weithiwr diflin, daeth i sylw yn ein mysg,
Teimlai awydd annghyffredin trwy ei oes i gasglu dysg ;
Bu yn Nghymru, do, a'r Alban, yn astudio amser maith,
Ac ennillodd glod ac arian fel gwobrwyon am ei waith.

'Roedd yn ganwr go ragorol—dyn oedd John o dalent gref—
Yn y cwrdd ac yn yr ysgol, yn y Cribin gwelid ef ;
Cymhorth oedd i'r gynnulleidfa, parchus ydoedd yn ein bro,
Bu yn llenwi yr areithfa er ein cyssur lawer tro.

Torodd lawer o gynlluniau, yn ddiamheu, iddo 'i hun,
Ni feddyliodd gallai rhwystrau ou dystrywio bob yr un ;
Ffaelu cyrhaedd ei amcanion, methu dringo pen y bryn,
A effeithiodd ar ei galon, a'i prysurodd tua'r glyn.

Pwy yw'r un a fedra dreiddio i deimladau ei gyd-ddyn ?
Duw yn unig a all chwilio ein calonau ni bob un ;
Tafled pawb trwy'r gymmydogaeth fantell cariad drosto 'nawr,
Cadw ni rhag profedigaeth, yw ein gweddi, Arglwydd mawr.

Dewi Hefin.

DYFODIAD IESU.

Y mae dyfodiad cyfnodau mawrion fel y mae'r haul yn cyfodi. Y mae'r wawr yn dyfod yn araf. Nid yw'r haul yn dyfod ar unwaith i ganol y tywyllwch, ac yn cyfnewid y nos ar unwaith i ddydd, ond yn araf. Yr un fath gyda holl fudiadau mawrion mewn hanesiaeth. Mae'r presenol yn tarddu allan yn naturiol o'r gorphenol. Y mae yna bethau pwysig yn cymmeryd lle ar unwaith—effeithiau nad ydym ni'n gallu cyfrif am yr achos o honynt. Y mae'r blodeuyn yn agor ar unwaith. Ond y mae'r blodau ag sydd yn cuddio'r ddaear yn y Gwanwyn yn effaith parotoad graddol ; y mae'r haul, a lleithder, daear ac awyr wedi bod yn cydweithio am fisoedd i ddwyn hyn oddiamgylch. Pa faint o ddylanwadau oedd wedi bod ar waith i wneyd y byd yn barod i ddyfodiad Iesu ! Deddf Moses ; ysprydoliaeth arddorchog proffwydi Israel ; lleisiau hefyd tuallan i Judea yn llefain yn niffaethwch y byd Paganaidd, " Parotowch ffordd yr Arglwydd, gwnewch yn uniawn ei

lwybrau ef." Yr oedd doethion Groeg a Rhufain, yn ddiarwybod iddynt eu hunain, wedi bod yn Ioan Fedyddwyr, i ddeffroi y meddwl dynol, i dyneru y galon ddynol, i gynhyrfu y gydwybod ddynol, nes o'r diwedd y daeth cyflawnder yr amser, a chyfododd Haul Mawr y Cyfiawnder fel haul heb gymmylau.

Gellir gofyn, "Pa rodd ddygodd dyfodiad Iesu, fel y mae ef yn parhau'n destyn o gymmaint llawenydd." Daeth ef fel Brenin Heddwch, ond y mae rhyfel etto'n parhau yn y byd, ac y mae cenedloedd Cristionogol yn cadw byddinoedd aruthrol i ymosod ar eu gilydd. Daeth i bregethu newyddion da i dlodion y ddaear, ac i gymmeryd i ffwrdd feichiau trymion ac anhawdd eu dwyn; ond y mae tlodi a thrueni ochr yn ochr ag eglwysi mewn pob gwlad Gristionogol. Daeth i ddystrywio pechod, ac y mae pechod mewn pob ffurf i'w gael yn ein plith. Nid yw wedi ei ddileu gan Oen Duw, yr hwn a anfonwyd i dynu ymaith bechodau y byd.

Ydyw, y mae hyn, a mwy na hyn yn wir. Etto, yr ydym yn credu fod drwg i gael ei orchfygu gan ddaioni; fod heddwch i gymmeryd lle rhyfel, fod pechod i gael ei wella trwy nerth gwirionedd a chariad Dwyfol. Y mae Crist i deyrnasu hyd nes y byddo ei holl elynion wedi plygu iddo, nes y byddo ewyllys Duw yn cael ei gwneuthur ar y ddaear, fel y mae'n cael ei gwneuthur yn y nefoedd. Ac y mae'r gobaith hwn yn obaith byw—nid hen draddodiad. Y gobaith hwn sydd yn rhoddi bywyd i'r ymdrechiadau Cristionogol sydd yn cael eu gwneyd. Y mae'n obaith rhesymol, yn sylfaenedig ar ffaith gadarn, ar brofiad.

Rhodd fawr Iesu i'r byd *yw* y gobaith byw hwn. Nid oedd ond ychydig o obaith yn y byd pan anwyd Iesu. Y dynion goreu oeddynt y rhai mwyaf pruddaidd, o herwydd gwelent y drwg oddiamgylch iddynt, ac nid oedd ganddynt ragolwg am ddaioni. Yr oedd crefyddau mawrion y byd wedi colli eu gafael ar feddyliau a chalonau y byd. Yr oedd dynion yn mhob man, yn fwy a mwy, heb Dduw, ac heb obaith yn y byd.

Ganwyd allan o fedd Iesu obaith newydd, gobaith llawn o anfarwoldeb, amyneddgar, anorchfygol. Nid oedd y dysgyblion ond ychydig; nid oedd ganddynt na dylanwad na dysgeidiaeth, nac unrhyw allu daearol o'u tu. Dylai pob peth eu digaloni, ond ni chawsant eu digaloni. Yn cael eu herlid, ond heb eu llŵyr adael; yn cael eu bwrw i lawr, eithr heb eu difetha. Ac yr oedd y gobaith hwnw mor nerthol nes troi ymherodraeth fawr Rhufain, mewn ychydig ganrifoedd, at Gristionogaeth. Hyn oedd yr halen i attal gwareiddiad i fyned i ddistryw; hyn oedd y surdoes a guddiwyd mewn tri mesur o flawd, hyd oni surodd y cwbl.

Y gobaith hwn oedd rhodd fawr Iesu i'r byd. Y mae'n obaith i ni ein hunain, i'n cyd-ddynion, i gymdeithas. Y mae'n obaith ar gyfer y bywyd hwn, ac ar gyfer y bywyd i dd'od. Yr ydym yn gwybod ein bod yn wan a phechadurus; ond yr ydym yn edrych yn y blaen ar yr amser pan y cawn ni ein prynu o afaelion drwg. Yr ydym yn gwybod fod y byd yn llawn o ddrygioni; ond yr ydym yn gweled dydd yn dynesu pan fydd cyfiawnder yn llifo fel afon, a phob cnawd deuddeg oed, "fod yn rhaid i mi fod ynghylch y pethau a berthyn i'm

yn gweled iachawdwriaeth Duw. Yr ydym yn gwybod fod rhyfel, caethiwed, a throsedd yn bodoli; ond y mae genym ffydd gadarn fod rhyfeloedd i ddarfod, a dyn i ddyfod yn bur, cyfiawn, caredig, a da. Yn yr ymddiried hwn, y mae dynion da yn llafurio i ddiwygio y byd; gwladgarwyr yn ymdrechu dros anrhydedd eu gwlad; cenadon yn ceisio dyrchafu eneidiau ag sydd yn cael eu tywyllu gan anwybodaeth. Heb ryw obaith mawr, ni fyddai gan ddynion da'r byd le cadarn i sefyll arno, a byddai'r hyn sydd yn rhoddi nerth iddynt i ymdrechu ddarfod. Dyma'r hyn sydd wedi bod yn ysprydoliaeth iddynt bob amser. Ac y mae'r gobaith Cristionogol hwn yn gorphwys ar sylfaen safadwy.

Y mae'n gorphwys ar y cynnydd sydd eisoes wedi ei wneyd. Mewn pob gwlad Gristionogol, a dywedyd y lleiaf, y mae yna gynnydd amlwg yn mhob peth ag sydd yn gwneyd bywyd yn werth ei fyw. Yn ein hoes ni, y mae corff mawr cymdeithas wedi cael ei ddyrchafu i afael mwy o ryddid, gwell addysg, a llawer uwch moesoldeb nag oedd yn ffynu'n Ewrop ac America gant o flynyddoedd yn ol. Nid yw yn wir fod y cyfoethog yn dyfod yn gyfoethocach, a'r tlawd yn dlotach, ond yn y gwrthwyneb. Y mae addysg yr holl bobl yn dyfod yn well o flwyddyn i flwyddyn. Y mae crefydd yn dyfod yn fwy ymarferol. Y mae erledigaeth am gredo bron darfod; y mae sectyddiaeth gâs yn marw allan. Y mae cyflwr y rhyw fenywaidd yn gwella; y mae gan fenyw well cyfleusderau heddyw nag erioed o'r blaen. Mae'n bossibl fod y cynnydd yn ymddangos i ni yn araf; ond os oes yna gynnydd gwirioneddol a pharhaus, cyrhaeddir yr amcan o'r diwedd.

Y mae gobaith y byd yn gorphwys hefyd ar garictor Iesu. Cyhyd ag yr edrychid arno fel bod hollol eithriadol, yn cael ei wahanu oddiwrth bawb ereill trwy alluoedd goruwchnaturiol, nid oedd ei berffeithderau yn rhoddi i ddynion ereill ond ychydig galondid. Ond, yn awr, gan nad beth gredir am ei Ddwyfoldeb, y mae pawb Cristionogion yn gosod mwy a mwy o bwys ar ei ddynoliaeth. Gan nad beth arall oedd, yr oedd yn ddyn, wedi ei wneuthur yn mhob peth yn gyffelyb i'w frodyr; yn cael ei demtio fel ninau, ond yn gwrthwynebu temtasiwn; yn cael ei brofi a'r siomedigaethau llymaf, a'r gwrthwynebiadau chwerwaf; ond byth yn colli ei ffydd yn Nuw a daioni. Daeth ef i ddangos yr hyn sydd bossibl i'r natur ddynol—a'r hyn oedd *ef*, credai y gallai pawb fod. Y mae'n ffordd, yn wirionedd, ac yn fywyd i ni oll. Dengys ef i ni yr hyn y mae dyn wedi ei fwriadu i ddod. Gallwn oll ddyfod yn ddynion perffaith yn Nghrist Iesu; dywed wrth ei ddysgyblion, "Byddwch berffaith fel y mae eich Tad yr hwn sydd yn y nefoedd yn berffaith." Y mae caricter Iesu, gan hyny, yn ffynnon barhaus o obaith i'r byd.

Ond etto rhagor na hyny. Y mae dyfodiad Iesu yn fendith i'r byd o herwydd ei ffydd yn Nuw fel Tad a Chyfaill. Gwasgarodd ef y cymmylau tywyllion oeddynt yn cuddio Duw oddiwrthym. Iddo ef, oddiar yr hanes cyntaf sydd genym am dano, nid brenin neu feistr oedd Duw, ond tad a chyfaill. "Oni wyddoch," meddai y pleutyn

Tad." Duw oedd ei Dad y pryd hwn, a phob cam, hyd awr olaf ei ing, pan y llefodd, "Fy Nhad, os yw bossibl, aed y cwpan hwn heibio oddiwrthyf." Dengys y weddi hona ei berffaith ymddiried yn Nuw, undeb hollol ei yspryd a Duw, ei ymddybyniad hollol ar Dduw. Y mae hyn oll wedi bod yn ysprydoliaeth i'r byd, ac y mae wedi gosod yr yspryd ynom ninau, trwy yr hwn y gallwn ninau befyd lefain "Abba! Dad." Y ffydd hona a'i galluogodd i ddywedyd, "Myfi a'r Tad un ydym," ac i gredu y gallasai ei ddysgyblion befyd fod yn un ag ef ac a Duw; "Myfi ynddynt hwy, a thithau ynof fi, fel y byddom wedi ein perffeithio yn un."

Dedwydd yw y rhai hyny a allant adael o'r neilldu gyndyn ddadleu gyda golwg ar y llythyren, a myned i fewn i'r yspryd Dwyfol hwn; a allant adael y phagyn a chymmeryd y cnewyllyn; y rhai ni welsant ac a gredasant. Os oes yna rywrai yn cael pleser mewn chwilio beiau ar lythyren yr Efengylau; mewn gweled brychau yn ei hanesiaeth, gadawer iddynt. Ffydd Iesu, yr hon sydd wedi bod yn ysprydoliaeth y byd, nid chwedl yw; ei gariad Dwyfol, yr hwn sydd wedi egluro i ni gymmeriad Duw, nid cysgod darfodedig yw. Ei garietor sanctaidd, bob amser yn newydd, byth yn ieuanc, mor agos i'r byd heddyw ag yn y gauaf gyntaf; nid twyll yw hyn. Y mae ef ei hunan yr un ddoe, heddyw ac yn dragywydd. Ac y mae'r cyunydd Cristionogol ag sydd wedi ei wneyd yn doriad gwawr, ag sydd yn rhagflaenu y dydd sydd i ddod.

THIS IS ALL.

Just a saunter in the twilight, just a whisper in the hall,
Just a sail on sea or river, just a dance at rout or ball,
Just a glance that hearts enthrall—this is all—and this is all.

Just a few harsh words of doubting, just a silence proud and cold,
Just a spiteful breath of slander, just a wrong that is not told,
Just a word beyond recall—this is all—and this is all.

Just a life robbed of its brightness, just a heart by sorrow filled,
Just a faith that trusts no longer, just a love by doubting chilled,
Just a few hot tears that fall—this is all—ah! this is all.

—*Chamber's Journal.*

NODYNAU GWASGAROG.

NID PAUL, OND IESU.

Nid wyf yn cofio enw awdwr y llyfr yn dwyn yr enw uchod, ac nid wyf yn cofio fy mod erioed wedi ei weled; ond y mae'r teitl yn un tarawiadol. Gwlad Gristnogol y gelwir ein gwlad ni, a Christnogion y geilw y trigolion eu hunain; ond yn sier i chwi y mae Cristnogaeth a Christnogaeth. Un peth yw Cristnogaeth yr athraw ei hunan, a

pheth arall yw Cristnogaeth yr eglwysi. Y mae Cristnogaeth y gwahanol eglwysi yn amrywio yn fawr hefyd oddiwrth eu gilydd. Ceir y credoau yn ymseilio ar Paul yn fwy nag ar Iesu, y dadleuwyr yn dyfynu oddiwrth Paul yn amlach nag oddiwrth Iesu; a'r pregethwyr yn pregethu oddiwrth eiriau Paul naw gwaith am bob un ag y maent yn pregethu oddiwrth eiriau'r Iesu. Pob parch dyledus i Paul, ond i mi y mae yr Iesu hyd y nod o flaen Paul ei hunan.

GWROLDEB CRISTNOGOL.

Gristion, ewyd, gwyneba'r don, pan y byddo gryfaf; gwylia am y dydd yn llon, drwy y nosoa hwyaf. Brysia 'mlaen, o hyd yn mlaen, brysia trwy bob tywydd; mae'r orphwysfa sydd yn ol i barhau'n dragywydd. Ymdrech, Gristion, ymdrech deg, Iesu sy'n blaenori; rhed yr yrfa'n ffyddlon, rhed, hyd nes y gorpheui. 'Rhwn addawodd a barha'n ffyddlon trwy bob tywydd; cariad yr Anfeidrol wna lifo yn dragywydd. Cwyd dy galon, Gristion, ewyd, pan ar fethu fyddo; ewyd dy galon, Gristion, ewyd, cyn el i oryhwyso. 'Does dim a'n gwahana oddiwrth gariad Crist ein Hlywydd; am ei gael i'n harwain rhown glod i'n Duw'n dragywydd.

CYNNULLIAD Y CENEDLOEDD.

Golygfa ardderchog ydoedd "*the gathering of the clans*"—y *clans* Cymreig yn Nghaerdydd, dydd Llun, Ionawr 24ain. Yr oedd yno gynnrychiolaeth o bob parth, a chan bob un feallai ei gynllun, *cut and dried*, i wellhau elwyfau Cymru anwyl, gwlad y gan. Nad beth am hyny, yr oedd yno lawer o ddoethineb hefyd, fel ag i guddio y mympwyon personol, er sierhau undeb a chydweithrediad ar ychydig o bynciau pwysig ac ymarferol. Nid na ddarfu i ni glywed y mympwyon, ac nid oedd wahaniaeth am hyny cyhyd ag y byddai i'r un a farchogai ei fympwy beidio a gyru ar draws cerbyd y blaenfynediant. Dal ar egwyddorion ydyw y peth pwysig mewn cyfarfod mawr, a gadael i'r manylion ofalu am danynt eu hunain. Yr oedd prif aelodau Seneddol Cymru a'i phrif wleidyddwyr yn bresenol, ac yr oeddynt oll, i bob ymddangosiad, mewn cydgordiad hyfryd a'r presenolion. Cyffyrddwyd a'r pynciau poeth, *burning questions* y dydd—Ymreolaeth yn yr Iwerddon, yr Eglwys yn Nghymru, y Cwestiwn Tirol, a'r Degwm, a deuwyd i benderfyniadau unfryd unfarn. Yr ydys wedi ceisio rhwymo yr A.Synod Cymreig (chwedl S. R.) i fod yn unllaw ar waith Cymru. Gobeithiwn y ceidw yr A.Synod mewn golwg hefyd y pwne mawr o ddylanwadu ar yr awdurdodau yn nghyfeiriad heddwch. Cafodd cuw Mr. H. Richard dderbyniad gwresog iawn fel apostol heddwch. Mae H. R. wedi myned mewn oedran, a gobeithiwn y ceir ei frodyr yn ffyddlon i gadw yn fyw y gwaith at yr hwn y cyflwynodd ef ran bwysicaf ei oes. Mae tlodi masnach y blynyddoedd diweddaf i'w briodoli i raddau mawr i ddiuystr cyfalaf trwy ryfel a thrwy y fasnach mewn diodydd meddwol. Llwyddiant i'r mudiad cenedlaethol.

Manion a Hanesion.

Gyrwyd 22 miliwn o barseli gyda'r post yn 1884, 26 miliwn yn 1885, a 35 miliwn yn 1886.

Dywed Stanley pe byddai'r cenadon oll fel Livingstone yn cario allan yr egwyddor "ar y ddaear tangnefedd, ac i ddynion ewyllys da," na fyddent mewn cymmaint perygl ag y maent.

Nid yw cân newydd Tennyson wedi cael y croesaw a ddysgwylid. Tybia'r hen wr fod y byd yn myned ar ei waeth. Nid yw Gladstone yn ei gredu. Mae llawer o wir yn y llinellau hyn :

Here and there a cotter's babe
Is royal-born by right divine ;
Here and there my lord is lower
Than his oxen or his swine.

Ac os yn erbyn natur yr awn yn gyffredinol, fel mae llawer yn gwneuthur, fe wireddir y geiriau hyn gyda chanlyniadau anhapus :—Tumble Nature heel o'er head, and yelling with the yelling street, set the feet above the brain, and swear the brain is in the feet.

Gwneuthur, Ystorio, Gweithio. — Gwnewch cyn gwario ; ystoriwch fel y gellwch roddi ; gweithiwch, fel y byddo genych i roddi a bendithio. Dyma reolau da i bawb, ac ar ol pob ymadawiad oddiwrthynt, daw canlyniadau drwg

Eglurhad.— O gymmaint o drallodau y gallai dynion eu hebgor, pe'n unig yr arosent i wrandaw eglurhad y naill y llall !

Iesu Grist.—Yr oedd yn perthyn i wir hiliogaeth y proffwydi. Gwelodd â llygaid clir ddirgelwch yr enaid. Wedi ei ddenu gan ei gydgordiad perffaith, a'i lesmeirio gan ei brydferthwch, yr oedd yn byw ynddo, ac yn cael ei fodolaeth yno. Yr unig un yn holl hanesiaeth a wnaeth iawn gyfrif o fawredd dyn. Yr oedd un dyn yn wir i'r hyn sydd ynoch chwi ac ynof finau.—*Emerson.*

Anfonwyd trwy y *post* llynedd 11,640,600,000 o lythyron a chardiau—digon i roi pump i bob dyn byw yn y byd, o bob oedran a gradd.

Mae cyllid y wlad yn profi ein bod wedi pasio y gwaethaf o'r amser drwg, a bod pethau yn awr yn amlwg yn gwella. Gobeithiwn y gwelir y llanw yn dyfod i fewn yn nerthol gydag estyniad y dydd.

Ystori wirioneddol, a'r oreu a adroddwyd eleni etto, Nawn Sul, Ionawr 2, yr oedd Mr. Jeanes, rector Hornsey, yn anerch yr Ysgol Sul, "Yn awr, *boys*," meddai, "yr wyf yn dymuno i chwi flwyddyn newydd dda, ac yn gobeithio y byddwch yn well bechgyn nag y buoch y flwyddyn a basiodd." "Felly chwithau, Syr," "Same to you, Sir," oedd yr ateb o amryw gyfeiriadau.

Cefncoed.—Mae yn debyg fod y diweddar Mr. Evan Evans, Six Bells, ryw dro wedi dadgan ei fwriad i adael rhywbeth ar ei ol i Hen-Dŷ-Cwrdd y Cefn. Ni ddarfu iddo, fodd bynag, drefnu dim felly yn ei ewyllys ; ond da genym gael ar ddeall fod ei fab, Mr. Christmas Evans, o'i wirfodd ei hun, wedi cyflawnu y dymuniad, trwy roddi cant punt at yr achos. Gobeithiwn y bydd hyn yn achos, nid i ollwng yr eglwys i fwy o ddiffrwythder, ond i'w symbylu i fwy o fywiogrwydd a gweithgarwch.

Y Gweinidog.—Gall y gweinidog fod yn hyawdl, yn ddysgedig, ac yn gymmeradwy yn bersonol, etto, er y cyfan, os mai gollwng i lawr den foesol yr eglwys fydd, nid yw o un lleshad. Cafodd eglwysi eu sefydlu gan Grist, nid i foddio, ond i achub dynion ; i arwain dynion i rodio yn sobr, yn gyfiawn, yn dduwiol yn y byd presenol. Mae gweinidog dysgedig, hyawdl, a chymmeradwy fyddo yn llefaru ac yn byw yn y cyfryw fodd ag i dynu ei bobl oddiwrth ddyfyrwch bydol, oddiwrth eithafion ffol, a ffraethineb ysgafn, y mae hwnw y fendith werthfawrocaf y dichon un eglwys ei sicrhau.

Llosgi Llyfr.—Mae weithiau yn llawer hawddach llosgi llyfr na'i ateb. Dyna brofiad gweinidog yn Yeovil yn ddiweddar. Yr oedd wedi cael copi o lyfr ar y Drindod. Darllenodd ef, ac wedi hyny, dododd ef yn y tân.

Yr hwn a rydd ei dangnefedd i fyny i ddygwyddiadau bychain, ac a edy i lwybr ei fywyd gael ei dori i fyny gan rwystrau a dygwyddiadau, rhydd hwnw ei hunan i fyny i gyfarwyddyd y gwynt, a chyll yr holl ddiysgogrwydd a'r tawelwch meddwl a nodweddant y gwr doeth.—*Dr. Johnson.*

Y *coin* mwyaf derbyniol yn mhlith dynion yw gweniaeth, a'r unig les deilliedig oddiwrtho yw i ni wrth glywed beth nad ydym, gael ein dysgu beth ddylem fod.

"Mae'r Italiaid yn ddoeth o flaen y weithred, y Germaniaid yn y weithred, y Ffrancod ar ol y weithred."—*Geo. Herbert.*

Gymmaint o ddedwyddwch y mae rhai yn golli yn y byd hwn, o ddiffyg gwybod mai "dedwydd ydyw rhoddi yn hytrach na derbyn." Bu farw un Heathcote yn ddiweddar ger Hillingdon, heb adael un perthynas, ac heb ewyllys, ac y mae ei gyfoeth, dros £200,000, yn myned i'r Goron!

Undodwr a ddywedodd nad oedd gwahaniaeth ganddo fod ei blant yn myned Sul ar ol Sul i wrando duwinyddiaeth nad oedd ef yn credu ynddi, mewn eglwys ffasiynol; gan ei fod yn eu siarad allan o honi mewn deuddydd neu dri. Pa un oedd gallaf, hwn, neu yr un a ddywedodd, y byddai cam-addysg yn gadael creithiau yn meddwl y plentyn na symudid byth mo honynt?

Eisieu mwy o waith a llai o siarad sydd i hwylusu cynnydd a llwyddiant ein heglwysi.

Y Census.—Ymgymmerodd Mr. Gee, Dinbych, perchenog y *Faner*, â'r gorchwyl o gael allan rif cynnulleidfaoedd Cymru dydd Sul, Ionawr 9, 1887. Yr oedd y dydd yn anffafriol iawn o ran tywydd, ac y mae rhai yn achwyn fod llawer o gynnulleidfaoedd dan anfantais mewn cymhariaeth i ereill, yn gymmaint â'u bod yn gwybod am y peth y Sul blaenorol, ac felly yn gallu cyhoeddi. Dyma rai o'r *results*:—H,D.C., Aberdar, boreu, 83, ysgol, 78, hwyr, 143; Capel y Fadfa, 174; Llwyn, 237; Llandyssul, 133; Pantydefaid, 185; Penrhiw, 14; Brondeifi, boreu, 134, Ysgol Sul, 75, nos, 166; Caeronen, ysgol y boreu, 44, cwrdd y prydnawn, 114, ysgol gân y nos, 62.

PRIODASAU.

Rhagfyr 7, 1886, yn Aberduar, gan y Parch. H. James, Mr. William Davies, Llwynifan, Cellan, â Miss Anne James, Cornel, Llanllwni.

Ionawr 11, 1887, yn Nghaeronen, gan y Parch. R. C. Jones, Mr. David Jones, Troedyrhiw, Cellan, â Miss Mary Thomas, Brynmelyn, Pencarreg.

Marwgofion.

Tachwedd 19, Elizabeth Bronwen, unig blentyn Thomas ac Ann Watham, 16, Pit Place, Cwmbach, yn dair blwydd a hanner oed. Pan o gylch chwe' mis oed, cafodd ei tharo yn glaf gan y pâs, ac o'r amser hwnw ni fwynhaodd awr o iechyd da. Gwyliwyd yn ofalus drosti gan ei rhieni a pherthynasau agos ereill yn ystod ei chystudd. Y dydd Mawrth canlynol, claddwyd hi yn Nghladdfa Aberdar; a chan fod y Parch. E. W. Lloyd, gweinidog y Cwmbach, yn glaf iawn ar y pryd, gwasanaethwyd wrth y ty ac ar lan y bedd gan y Parch. J. H. Davies, Cefn.

Tachwedd 22, 1886, James Evans, Frowen, Cludeg, Penfro, wedi byr gystudd, yn 30 oed. Yr oedd o ran ei olygiadau yn Undodwr trwyadl. Efe yn unig allan o dri-ar-ddeg o wyrion i hen daid a nain Undodaidd oedd wedi coleddu eu credo. Paham na fuasai rhai o'r wyrion ereill wedi gweled gwerth yn yr un golygiadau? Dywed Paul, "A hyn wyf yn weddio ar amlhau o honoch fwy-fwy mewn gwybodaeth a phob synwyr, fel y profoch y pethau sydd a gwahaniaeth ynddynt, fel y byddoch yn bur a didramgwydd hyd ddydd Crist." Prif lyfrau yr ymadawedig oeddynt y Beibl, Channing, Belsham, Ymofynydd, "Soul's way to God," a gweithiau Dr. Dick, sef, "Y cyssylltiad sydd rhwng anianyddiaeth a chrefydd." Medrai enwi y planedau wrth eu henwau yr oll o'r dosparth cyntaf, yr ail, a'r rhan fwyaf o'r trydydd dosparth, yn nghyd ag amryw o'r rhai llai. Bu yn fuddugol mewn pedair-ar-bymtheg o gyfarfodydd cystadleuol ac eisteddfodau. Dwy waith yn y "Three Counties Eisteddfod." Bu ei enw yn ymddangos droion yn ol yn Yr Ymofynydd. Bu y diweddar Parch. W. E. Davies, ac yntau yn treulio llawer noson gyssurus gyda'u gilydd pan yn mynychu Rhydypare a St. Clears. Nid oedd un o honynt y pryd hwnw yn meddwl y buasent yn ein gadael mor fuan, ac y buasent yn cael cydymbleseru mor ebrwydd mewn gwlad well. Mynych y clywais ef yn adrodd sylw Golygydd Yr

YMOFYNYDD yn Rhydyparc, pan y dygwyddai rhyw un golli mewn meddwl neu weithred. "Enter the wrong train," a dyna yw prif ddrwg y byd yn gyffredinol ein bod yn myned i'r "wrong train." Derbyniais lythyr oddiwrtho yn ddiweddar, yr hwn oedd yn diweddu fel y canlyn:—"Our happiness is to be realized only through our own reaching forward to a new virtue and piety. To be joined with Christ in heaven, we must be joined with Him on earth in spirit, in the conquest of temptation, in charity, and in well doing. A human being who has lived without God, and without self-improvement, can no more enjoy heaven, than a mouldering body lifted from the tomb and placed amidst beautiful prospects." Hebryngwyd ei gorff i fynwent Moriah i gôl ei fam, ar y dydd Iau canlynol. Gweinyddwyd yn y tŷ gan y Parch. J. Stephens, Llwyn-yr-hwrdd, yr hwn a fu yn llettya ar ei aelwyd am flynyddau; ac yn y capel gan ei gefnder, y Parch. E. Evans, Penybont, gynt o Sciwen. Addewidion gwerthfawr efengyl yr Iesu fyddont yn help i'r rhieni i ymddal o dan yr amgylchiad chwerw.—*Cyfaill i'r ymadawedig.*

Rhagfyr 19, 1886, Jane, merch fechan Mr. a Mrs. William Edwards (Ap Sior). Davies St., Aberaman, yn 11 mlwydd oed.

Ah! Jennie hoff, dy farw sydd
Yn dwyn i'n gruddiau lawer deigryn,
Ac hiraeth gwyd adgofion prudd
Am danat ti,—anwylaf blentyn;
Dy fywyd pur, er byred fu,
Oedd ddysglaer, megys seren oleu,
Ac ymawyddai'th enaid cu
Am fyw yn ngwlad yr aur delynau.

Afiechyd ddaeth, fel llwydrew'r nos,
I'w hebrwng hi hyd drothwy angau,
A gwywo wnaeth y lili dlos,—
Y dlysaf un yn mhlith y blodau:
Os gwywodd gwedd y lili hardd,
Daw etto'n ol yn llawn tlysineb;
Ail blanodd Duw hi yn ei ardd
I harddu'r nef am dragwyddoldeb.

O! Dduw, ein Tad, a'n Crewr cu,
Paham y gelwaist hi mor sydyn?
Ai nod oedd hwn o'th ddigter di
Am bechu o honom yn dy erbyn?
Os felly'n Tad, rho in' 'r awr hon
Lewyrchiad pur o'th Ddwyfol wenau;
A nerth i blygu ger dy fron
I ddeisyf arnat faddeu'n beiau.

Ai tybed mai digofaint Duw,
Yn nghanol bywyd, wnaeth ein llethu?
Ai ingol wae o'i eiddo yw,
Dwyn ymaith un o blith ein teulu?
Na, na, nid digter barodd hyn,
Ond dyrys ffyrdd yr Arglwydd ydoedd,
Er troi'n meddyliau at y glyn,
A chodi'n serch yn nes i'r nefoedd.

O boed dy 'wyllys dyner Di
Yn rheol sanctaidd trwy ein bywyd,
A rhodio'n ffyrdd yr Iesu cu
Nes cyrhaedd draw i'r Ganaan hyfryd.
Mordwyodd Jane, er poen a chlwy,
I borthladd clyd y Ganaan nefol,
A boed ein gweddi ninau mwy
Am gydfwynhau mewn hedd tragwyddol.

Rhagfyr 24, 1886, yn 13 mis oed, Isaac, mab bychan John ac Essy Owen Herbert, Cloth Hall, Ram, Pencarreg. Y Llun canlynol, daeth torf luosog o bobl i hebrwng corff y bychan i'r bedd yn mynwent Brondeifi. Gwasanaethwyd ar yr achlysur gan R. C. Jones. Bydded i'r rhieni trallodus gael modd i alaru yn gymmedrol.

Ar y dydd olaf o'r flwyddyn 1886, ar Graigtrebanws, Mary, gweddw y diweddar Simon Davies, gynt o Dan Castell, plwyf Llanwnen, sir Aberteifi, yn 22 oed. Cafodd yr ysgrifenydd yr hyfrydwch o dderbyn yr ymadawedig yn aelod o'r eglwys yn y Gellionen, ar y 1af o Chwefror, 1880; a'i phriodi â Simon Davies, ar y 6fed o Orphenaf, 1884, yn yr un lle; a'r ddyledswydd o weinyddu yn nghladdedigaeth Simon Davies yn 24 oed, ar yr 20fed o Orphenaf, 1886; eu plentyn, Thomas Edward, 5 mis oed, Tachwedd 11, 1886; ac yn nghladdedigaeth y fam ar y 4ydd o Ionawr, 1887. Wele deulu cyfan wedi cael eu cludo mewn ychydig amser i'r un bedd yn mynwent henafol Gellionen. Mae ffyrdd Rhagluniaeth yn rhyfedd! "O'm hyder yw mae rhyw fodd da," &c. —*Jno. Evans.*

Ionawr 13, maban Mr. John Lewis, Llewelyn st., Aberdar, a'i wraig, yn ddau fis oed.

Ionawr 14, 1887, Elizabeth, gwraig J. Davies Thomas, M.R.C.V.S., Alltyrodyn Arms, ger Llandyssul, yn 37 oed, gan adael priod a dau o blant bychain ar ei hol. Nodded y nef fyddo yn eu cyssuro. Claddwyd yn Llwynrhydowen y Llun canlynol, a gweinyddwyd gan T.T. a W.J. Traddodir y bregeth angladdol yn y Llwyn, Chwefror 13eg, am ddau o'r gloch.

AT EIN DERBYNWYR.

TALIADAU:—W.G., Pontyberem; E.J., E.G., Aberdar; Miss C.W., London; R.G., Cwmafon; A.J.W. (M.P.); D.W.D., Gellionen; M.T., Llangors; B.B., Treherbert; T.J., New Court; D.T., Ochryrhos; Mr. E., Towyn; W.D., Cribin; J.L., Dowlais; D.E., Troedyrhiw; D.T., Treorci; O.J., Llanwenog.

☞ Tyner pob *Post Office Order* ar y *Mill Street* Post Office, ac yn enw R. J. Jones, Editor, &c. Cofier, fodd bynag, fod y *Postal Orders* weithiau yn rhatach nâ'r *Post Office Orders*. Fe ddylid bob amser defnyddio *Postal Orders* yn lle *stamps* mor bell ag y gellir.

TELERAU:—Pris 3c., trwy'r post, 3½c.; ar dri rhifyn a throsodd telir y cludiad.

☞ *Anfoner pob archebion a gohebiaethau at*

THE EDITOR OF "YR YMOFYNYDD,"
MEIRION COTTAGE,
ABERDARE.

EMYNAU O FAWL A GWEDDI.

Anfonir copi (*specimen*) rhwym yn rhydd gyda'r *post* am 2s.

PREGETHAU Y PARCH. W. THOMAS, M.A.

Dymunwn alw sylw at y gyfres a ddechreuodd gyda rhifyn Awst, a byddwn yn falch i gael anfon copïau ychwanegol at ein dosparthwyr.

CYHOEDDIR TUA DIWEDD Y FLWYDDYN

"BANNAU FFYDD UNDODWR,"

Wedi ei gyfieithu gan y

PARCH. T. THOMAS, PANTDEFAID.

Darllener y sylw a wneir o'r llyfr yn y rhifyn cyn y diweddaf. Yr ydys yn gobeithio na fydd y pris ddim dros 6c. Anfoner *orders* oddiwrth Ysgolion Sul ac ereill yn ddioedi at y PARCH. W. JAMES, *Cerdin Villa, Llandyssul, S. Wales.*

LLYFR CYNTAF I BLANT YR YSGOL SUL

(AIL ARGRAFFIAD),

Gan y diweddar Barch. JOHN JONES, ABERDAR.

PRIS—DWY GEINIOG.

Gwerthir 100 o'r uchod yn ol 12 swllt y cant; a dwsin am 1s. 6c.